## ATODLEN 5

## TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

### RHAN 6

### DEHONGLI

*Anheddau y tu allan i Gymru*

35 (1) Yn narpariaethau'r Atodlen hon a bennir yn is-baragraff (4), mae cyfeiriadau at "annedd" yn cynnwys cyfeiriadau at annedd a leolir y tu allan i Gymru.

(2) O ran annedd a leolir yn Lloegr, mae'r darpariaethau hynny i'w dehongli yn unol â darpariaethau Deddf Cyllid 2003 (p. 14).

(3) Wrth gymhwyso'r darpariaethau hynny mewn perthynas ag annedd a leolir mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i Gymru a Lloegr—

(a) mae cyfeiriadau at "prif fuddiant" yn yr annedd yn gyfeiriadau at fuddiant cyfatebol yn yr annedd o dan gyfraith y wlad neu'r diriogaeth honno,

(b) mae cyfeiriadau at bersonau sydd â hawl lesiannol i fuddiant yn yr annedd fel cyd-denantiaid, tenantiaid ar y cyd neu gydetifeddion yn gyfeiriadau at bersonau sydd â hawl gyfatebol i'r buddiant yn yr annedd o dan gyfraith y wlad neu diriogaeth honno,

(c) mae cyfeiriadau at "trafodiad tir" mewn perthynas â'r annedd yn gyfeiriadau at gaffael buddiant yn yr annedd o dan gyfraith y wlad neu'r diriogaeth honno,

(d) mae cyfeiriadau at "dyddiad cael effaith" trafodiad tir mewn perthynas â'r annedd yn gyfeiriadau at y dyddiad y caffaelir y buddiant yn yr annedd o dan gyfraith y wlad neu'r diriogaeth honno, ac

(e) mae cyfeiriadau at "etifeddiant" yn gyfeiriadau at gaffael buddiant o ystad person ymadawedig yn unol â chyfreithiau'r wlad neu'r diriogaeth honno ynghylch etifeddu eiddo.

(4) Darpariaethau'r Atodlen hon y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (1), (2) a (3) yw—

(a) paragraff 5(1)(a),
(b) paragraffau 8(2)(b), (c), (d) ac (e) a (4)(b), (c) a (d),
(c) paragraff 9(4),
(d) paragraff 15(1)(b),
(e) paragraffau 17(2)(b), (c), (d) ac (e) a (4)(b), (c) a (d),
(f) paragraffau 18(4),
(g) paragraff 26,
(h) paragraff 28,
(i) paragraff 32(2), a
(j) paragraff 34.

(5) Pan fo gan blentyn person ("P") fuddiant mewn annedd a leolir mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i Gymru—

(a) mae P ac unrhyw briod neu bartner sifil i P i'w trin at ddibenion yr Atodlen hon fel pe bai ganddo neu ganddynt y buddiant hwnnw, a

(b) nid yw'r plentyn i'w drin felly.

(6) Nid yw is-baragraff (5)(a) yn gymwys i briod neu bartner sifil i P os nad yw'r ddau ohonynt yn cyd-fyw (gweler paragraff 25(3) am ystyr hynny).

(7) Nid yw is-baragraff (5) yn gymwys pan fo—

(a) person ("D") yn caffael, yn dal neu'n gwaredu prif fuddiant mewn annedd yn enw plentyn neu ar ran y plentyn,

(b) D yn gwneud hynny drwy arfer pwerau a roddir i D fel dirprwy'r plentyn, ac

(c) D yn dal y buddiant hwnnw ar ymddiriedolaeth ar gyfer y plentyn neu, yn achos gwaredu, wedi ei ddal ar ymddiriedolaeth ar gyfer y plentyn.

(8) Yn is-baragraff (7), ystyr "dirprwy" yw—

(a) person a benodir o dan adran 16 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9), neu

(b) person a benodir i swydd gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i Gymru a Lloegr (ac felly mae'r cyfeiriad at fuddiant yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth gan berson o'r fath yn gyfeiriad at ei ddal ar sail gyfatebol o dan y gyfraith honno).

*Yr hyn sy'n cyfrif fel annedd*

36 (1) Mae'r paragraff hwn yn nodi rheolau ar gyfer penderfynu beth sy'n cyfrif fel annedd at ddibenion yr Atodlen hon.

(2) Mae adeilad neu ran o adeilad yn cyfrif fel annedd—

(a) os yw'n cael ei ddefnyddio fel annedd neu'n addas i'w ddefnyddio fel annedd, neu

(b) os yw yn y broses o gael ei adeiladu neu ei addasu at ddefnydd o'r fath.

(3) Cymerir bod tir sy'n cael ei feddiannu neu ei fwynhau gydag annedd, neu dir a fydd yn cael ei feddiannu neu ei fwynhau gydag annedd, fel gardd neu diroedd (gan gynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ar y tir hwnnw) yn rhan o'r annedd honno.

(4) Cymerir bod tir sy'n bodoli er budd annedd, neu dir a fydd yn bodoli er budd annedd, yn rhan o'r annedd honno.

(5) Cymerir hefyd fod prif destun trafodiad yn fuddiant mewn annedd, neu'n cynnwys buddiant mewn annedd—

(a) os dyddiad cyflawni contract yn sylweddol yw'r dyddiad y mae'r trafodiad hwnnw yn cael effaith yn rhinwedd darpariaeth dybio berthnasol,

(b) os yw prif destun y trafodiad yn ffurfio neu'n cynnwys buddiant mewn adeilad, neu ran o adeilad, sydd i'w adeiladu neu i'w addasu o dan y contract ar gyfer ei ddefnyddio fel annedd, ac

(c) os nad yw'r gwaith o adeiladu neu addasu'r adeilad, neu'r rhan o adeilad, wedi dechrau erbyn yr adeg y caiff y contract ei gyflawni'n sylweddol.

(6) Yn is-baragraff (5)—

mae "contract" ("*contract*") yn cynnwys unrhyw gytundeb;

mae i "cyflawni'n sylweddol" ("*substantially performed*") yr un ystyr ag yn adran 14;

ystyr "darpariaeth dybio berthnasol" ("*relevant deeming provision*") yw unrhyw un neu ragor o adrannau 10 i 13 neu baragraffau 8(1) i (5) o Atodlen

2 (trafodiadau cyn-gwblhau) neu baragraff 20 o Atodlen 6 (cytundeb ar gyfer les).

(7) Nid yw adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir at ddiben a bennir yn adran 72(4) neu (5) yn cael ei ddefnyddio fel annedd at ddibenion is-baragraffau (2) na (5).

(8) Pan fo adeilad neu ran o adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddiben a grybwyllir yn is-baragraff (7), rhaid diystyru ei addasrwydd ar gyfer unrhyw ddefnydd arall at ddibenion is-baragraff (2).

*Prif fuddiant i beidio â chynnwys lesoedd penodol*

37 At ddibenion yr Atodlen hon, nid yw unrhyw gyfnod o flynyddoedd absoliwt neu ystad lesddaliad yn "prif fuddiant" os nad yw cyfnod y les yn fwy na 7 mlynedd ar y dyddiad y'i rhoddir.